





# Her Fawr yr Haf

Gyda'r gwyliau ysgol ar ein gwarthaf, mae Gwasanaethau Brys ledled Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod pawb yn cael haf diogel a phleserus.

Eleni, mae **Heddlu Gogledd Cymru, PACT** â **Solon** yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi cyfle i ennill arian parod ar gyfer eu clwb / grŵp / ysgol.

Rydym yn annog grwpiau ieuenctid ledled Gogledd Cymru i gymryd rhan yn **Her Fawr yr Haf** - Ffordd wych o wneud argraff yn eich cymuned a chyfle i ennill arian!

**#HerFawrYrHaf2025**

91004

A dyma...

## Her Fawr yr Haf!!

Rydym yn annog grwpiau ieuenctid ledled Gogledd Cymru i gymryd rhan yn Her Fawr yr Haf. Mae hon yn ffordd wych i grwpiau / clybiau / ysgolion gynorthwyo yn eu cymuned, codi ymwybyddiaeth am broblemau lleol neu genedlaethol, addysgu pobl eraill ynghylch peryglon gweithgareddau penodol neu wneud gwahaniaeth i fywydau pobl leol.

Prosiectau i'w cynnal rhwng 2 Mehefin - 1 Medi 2025!

**Er mwyn gwybod mwy, cliciwch yma**



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SOLON

PACT Gogledd Cymru North Wales
Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Police and Community Trust

# Her Fawr yr Haf




Os ydych yn cael trafferth cael syniadau, mae ein partneriaid wedi rhoi awgrymiadau isod.

## Heddlu Gogledd Cymru

Ambell i syniad...

- Creu posteri/taflenni i godi ymwybyddiaeth o yrru ar y cyflymder cywir yn eich cymuned leol.
- Creu ymgyrch i annog plant i wisgo helmed a dillad llachar wrth seiclo.
- Lansio prosiect i bwysleisio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich ardal.
- Meddwl am faterion amgylcheddol yn eich ardal. Llunio arolwg o'ch cymdogion gan ofyn iddynt beth sy'n eu poeni fwyaf - Beth allwch chi wneud i newid pethau?
- Cynllunio prosiect sy'n helpu pobl fregus yn eich ardal i leihau eu risg o ddioddef troseddau.
- Meddwl am brosiect sy'n codi ymwybyddiaeth o sgamiau ar-lein

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

## SOLON

Ambell i syniad...

- Trefnu ymgyrch er mwyn codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch personol i bobl ifanc – fel sut i gadw'n ddiogel pan allan ar eich pen eich hun neu hefo ffrindiau
- Llunio ymgyrch er mwyn cynorthwyo pobl i warchod eu hunain yn erbyn sgamiau ar-lein a thwyll hunaniaeth.
- Codi ymwybyddiaeth am beryglon gadael pethau gwerthfawr yn y golwg – fel mewn ceir neu erddi – ac awgrymu datrysiadau diogelwch syml.
- Creu prosiect er mwyn hyrwyddo diogelwch beicio – rhedeg gweithdy ar lwybrau ac offer seiclo diogel.
- Hyrwyddo mannau diogel drwy drefnu taith gerdded "Strydoedd Diogelach" – nodi mannau hefo golau gwael neu fregus yn eich cymuned ac awgrymu gwelliannau.

SOLON

## PACT

Ambell i syniad...

- Prosiect a fyddai'n helpu eich cymuned i fod yn ddiogel.
- Prosiect sy'n gwneud i bobl ifanc deimlo'n fwy hyderus a iach.
- Prosiect a allai godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y rhyngrwyd ac aros yn ddiogel arlein.
- Edrych o gwmpas eich ardal - oes llefydd y gallwch wella neu wneud gwahaniaeth?

PACT Gogledd Cymru North Wales
Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Police and Community Trust

Ond yn y pen draw, chi sy'n penderfynu!

# Her Fawr yr Haf




## Yr Her!

- Rhaid i'ch Tîm fod yn rhan o grŵp ieuenctid, clwb, dosbarth neu ysgol sydd wedi sefydlu
- Nid oes cyfyngiad ar y niferoedd o bobl a geir i ffurfio tîm
- Gall tîm gynnwys cymysgedd o oedrannau rhwng 5 a 18.
- Gall mwy nag un prosiect tîm fynd i gystadleuaeth
- Enillwch arian ar gyfer eich clwb, grŵp neu ysgol!
- **Gwobr 1af £750, 2il wobr £500, 3edd wobr £250, a gwobrau ariannol pellach i'w hennill!**
- Rhaid i'ch prosiect gynorthwyo gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill
- Cofrestrwch Nawr!

Rhaid i bob grŵp fod ag o leiaf un oedolyn yn ymgynghori – rhywun sy'n rhan o'r tîm ac sy'n 18 oed neu drosodd.

Bydd angen i'ch ymgynghorydd sy'n oedolyn gofrestru eich tîm. **Cliciwch yma** er mwyn gofyn am eich Llyfr Cofnodion ar gyfer Her Fawr yr Haf.

Os ydych angen mwy o wybodaeth am yr her, e-bostiwch: youthengagementofficer@northwales.police.uk

#HerFawrYrHaf2025



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

SOLON

PACT Gogledd Cymru North Wales
Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Police and Community Trust